# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLHELI 15/03/22

**PRESENOLDEB:**

**Cyngor Gwynedd:** Y Cynghorwyr Hefin Underwood a Dylan Bullard

**Aelodau Cyfetholedig:** Stephen Tudor (Cynrychioli Clwb Hwylio Pwllheli), Michael Sol Owen (Cynrychioli Plas Heli), Wil Partington (Cynrychioli Cymdeithas Masnachwyr Morwrol Pwllheli), Alwyn Roberts (Cynrychioli Sefydliad y Bad Achub Pwllheli), Jenny Moss (Cynrychioli Cymdeithas Deiliaid Angorfeydd Marina Pwllheli) a'r Cyng. Mike Parry (Cynrychioli Cyngor Tref Pwllheli)

**Eraill yn bresennol:** Barry Davies (Rheolwr Gwasanaeth Morwrol), William S Williams (Rheolwr Hafan), Llŷr B Jones (Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned), Einir Rh Davies (Gwasanaethau Democratiaeth) ac Elin Wynne (Cyfieithydd)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Mr Ifor Hughes.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 12 Hydref, 2021 fel rhai cywir.

**5. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL A GWEITHREDOL YR HARBWR**

Croesawyd pawb ac amlygwyd balchder bod cymaint wedi gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod. Nodwyd bod y trefniant o gyfarfod yn rhithiol wedi gweithio yn wych, ac wedi bod o gymorth i'r rhai nad ydynt yn lleol i fedru mynychu cyfarfodydd yn haws. Serch hynny, cadarnhawyd y bydd yn braf cael cyfarfod wyneb yn wyneb pan fydd hyn yn cael ei ganiatáu.

Cyfeiriwyd at yr adroddiad oedd wedi ei chreu ar y cyd gan y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol a'r Rheolwr Hafan, gan adrodd fel a ganlyn :

**Cod Diogelwch Harbwr**
Er mai Y Cynghorydd Gareth Thomas yw Deilydd Dyletswydd y Cod Diogelwch, mae yn hynod bwysig derbyn mewnbwn Aelodau'r Pwyllgor i gyd i'r Cod. Cadarnhawyd bod dau archwiliad wedi eu cynnal gan Asiantaeth Gwylwyr y Glannau, oedd yn cadarnhau cydymffurfiaeth angenrheidiol llawn gyda y Cod. Crybwyllwyd yr adroddiad am y Ddamwain ar y Fenai fel sail i'r pwysigrwydd i bawb edrych ar eu Cod ac ystyried pwysigrwydd y Cod a chyfrifoldebau unigolion er sicrhau cydymffurfiaeth.

**Carthu'r Sianel**
Cadarnhawyd bod y gwaith a wnaed gan gwmni 'Royal Smalls' wedi bod yn llwyddiannus iawn, gyda oddeutu 20,000 ciwb o ddefnydd llaid yn llai yn yr harbwr mewnol y flwyddyn hon. Adroddwyd y cafodd rhan fwyaf o'r llaid ei arllwys fewn y bwnd distyllu a bellach mae'r bwnd yn llawn ac fe fydd angen cynllunio ar gyfer gwagio'r bwnd distyllu yn fuan. Nodwyd mai'r cam nesaf fydd carthu basn Hafan ond yn gyntaf bydd angen cwblhau gwaith arbrofi'r llaid sydd wedi setlo ar waelod y marina. Yn anffodus, nid oedd yr amserlen ar gyfer 2022 yn caniatáu i waith carthu pellach gael ei wneud yn y basn ac felly bydd yn cael ei raglennu ar gyfer 2023/24. Cyfeiriwyd at y cyfarfod oedd wedi ei gynnal gyda 'Royal Smalls' i drafod yr opsiynau o ran beth i'w wneud gyda'r bwnd, gan fod y bwnd gwreiddiol yn llawn, gan ystyried sut, pryd a faint fydd y gost i wagio y bwnd distyllu. Atgoffwyd y Pwyllgor bod y llaid yn y gorffennol wedi ei gludo i Harlech y tro cyntaf, ac wedi ei adael ar tir cyfagos yr ail dro, ond erbyn hyn bod lefelau wedi cyrraedd uchder ble na fyddai modd gwneud hyn eto. Rhagwelir byddai angen gwaredu 20,000 ciwb allan o'r bwnd distyllu. Cyfeiriwyd hefyd at opsiynau eraill megis cymysgu tywod a llaid at ddefnydd masnachol, ond wrth gwrs mae hyn yn dod gyda ei heriau ei hun. Yn y cyfarfod gyda 'Royal Smalls' trafodwyd yr opsiwn o leoli bagiau ar y tir, ei brosesu a'i sychu ar y safle ac yna ei waredu. Bydd trafodaethau pellach i ddilyn ar y mater.

**Ceg yr Harbwr**
Atgoffwyd y Pwyllgor fod y gwaith carthu ar geg yr Harbwr yn digwydd pob blwyddyn, o gwmpas mis Mawrth a mis Ebrill. Eleni, mae'r Gwasanaeth wedi penderfynu byddai mis Mai yn llawer mwy effeithiol i ymgymryd a'r gwaith. Cadarnhawyd bydd y gwaith yn cael ei wneud drwy ddefnyddio peiriannau o'r tir gan storio'r tywod ar y safle bresennol. Nodwyd y bwriedir buddsoddi £60,000 i £70,000 eleni..

Mae maint y domen dywod wedi lleihau yn sylweddol yn ddiweddar gan werthwyd 20,000 tunnell o dywod er mwyn maethu rhan arfordir ger Hafan y Mor. Cadarnhaodd y Cadeirydd ei ddymuniad bod unrhyw arian sydd yn dod yn ôl i gronfa Morwrol drwy werthiant tywod yn cael ei fuddsoddi yng nghronfa carthu Harbwr Pwllheli, ond adroddwyd gan y Rheolwr Morwrol na fydai modd rhoi sicrwydd o hyn.

Mewn ateb i gwestiwn am y Strategaeth cadarnhaodd y Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned fod y Strategaeth Garthu yn dal yn fyw ac yn mynd rhagddi a'r angen ynglŷn â'r grwyn wedi ei adnabod fel bod angen sylw cyson a rheolaidd. Cadarnhaodd bod trafodaethau ynglŷn â'r gwaddod, a'r defnydd ohono, yn parhau i fod ar y gweill. Cadarnhaodd ymhellach y bydd gwaith peilot yn cychwyn ym Mhwllheli o ran gwaith atal llifogydd.

Mewn ymateb i sylw am y pryder bod oes y pontŵn yn dod i ben, adroddodd y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol eu bod wedi eu cynnal a'u cadw i safon uchel ac yn cael eu hadnewyddu yn ôl yr angen, a'u bod i'r safon angenrheidiol, ond y bydd angen buddsoddi ymhellach maes o law.

Mewn ymateb i sylw am garthu, nodwyd nad oes llawer o gychod wedi ei tynnu allan o'r harbwr yn 2021/22 a bod y dyfnder dwr yn y marina ac yn y sianel fordwyo yn edrych yn dda. Diolchwyd am argaeledd canlyniadau yr arolwg a chydnabuwyd y gwaith da a wnaethpwyd gan y Gwasanaeth.

**Materion Ariannol**
Cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol at y ffigyrau oedd yn nodi cymariaethau a throsolwg, ond nododd nad oedd wedi mynd i fanylder yn y ffigyrau oedd yn mynd hyd at ddiwedd Chwefror. Tynnwyd sylw penodol at y canlynol, gan roi eglurhad fel yn briodol:

Mae gorwariant o ran Eiddo (£19,261), gan ei fod yn cynnwys costau trydan

Mae trafnidiaeth yn cynnwys cychod, hoist a thractor. Nodwyd na chaniateir defnydd disel coch yn yr hoist o'r 1af Ebrill ymlaen. Golygai hyn bydd angen gosod tanc disel newydd ar y safle fel bydd bosib storio disel gwyn ar y safle ar gyfer yr hoist.

Nodwyd y bydd y sefyllfa yn siŵr o newid cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Cadarnhawyd bod Harbwr Pwllheli gyda chyllideb llawer is na'r Hafan yn dangos gwelliant £17,000 yn well na'r targed yn y gyllideb.

Yn ychwanegol, adroddwyd ar £750,000 o elw o'r Hafan, a theimlwyd ei bod yn bwysig bod arian o'r math yn aros o fewn y Cyngor ac yn cael ei ddefnyddio er budd trigolion Gwynedd. Pwysleisiodd byddai adroddiad pellach i ddilyn unwaith bydd y flwyddyn ariannol gyfredol wedi dod i ben.

Cyfeiriwyd at y daenlen Ffioedd a chadarnhawyd bod y Gwasanaeth yn parhau i ddisgwyl cadarnhad o'r ffioedd ac yn disgwyl sylwadau y Swyddog Statudol cyn rhyddhau'r ffioedd yn gyhoeddus. Cadarnhawyd bod y Gwasanaeth yn argymell peidio a chodi ffioedd angori blwyddyn. Cymerwyd y cyfle i ddiolch i gwsmeriaid ffyddlon, a chwsmeriaid newydd, ac er bod argymhelliad i beidio a chodi ffi angori blwyddyn nid oedd modd rhewi costau trydan.

O ganlyniad i'r tir a roddwyd i'r Bad Achub, mae llai o dir ar y lan ar gyfer storio cychod dros y gaeaf. Mae nifer o'r cychod sydd ar y tir ar hyn o bryd yn perthyn i unigolion nad ydynt yn dal angorfeydd. Nodwyd y bwriad i annog perchnogion y cychod hyn i'w symud, gan eu hysbysu y bydd y ffi am y gwasanaeth hwn yn cael ei gynyddu, ac y bydd blaenoriaeth ar y tir yn cael ei roi i gychod sydd gyda chytundeb blwyddyn ar bontŵn. Cadarnhawyd y bydd hyn yn cael ei ddatblygu ymhellach maes o law.

Nododd y Cadeirydd a Chynrychiolydd y Gymdeithas Deiliaid Angorfeydd Marina Pwllheli eu balchder bod cytundeb i adael y ffioedd ar yr un raddfa. Cwestiynwyd pam fod costau i rai ymwelwyr yn fwy nag eraill (e.e. pris cwch fodur yn uwch na chwch hwylio). Eglurodd y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol bod nifer o gychod yn gwneud defnydd ond ddim yn cyfrannu cymaint, na hyd yn oed gofrestru gyda'r Cyngor ac mae hyn yn creu anawsterau. O ganlyniad, y cysyniad oedd os nad oeddynt yn dod i gytundeb hir dymor, eu bod yn cyfrannu mwy mewn ffi ymwelydd. Cadarnhaodd Rheolwr Hafan bod y Cyngor yn cadw llygaid ar farinas eraill hefyd, gan gadarnhau bod cyfraniad y cychod pŵer yn llai.

Trafodwyd y gwasanaeth parcio a lansio, a rhagwelwyd sefyllfa o 100% llawn yn 2022. Nodwyd bod incwm sydd yn deillio o gychod sydd yn ymweld yn fychan iawn, gyda rhai cychod angen angorfa ddal neu rhywle i gysgodi rhag storm yn unig. Roedd y Pwyllgor yn ei gweld yn galonogol clywed y drafodaeth, a nodwyd pryder nad oedd unrhyw angorfeydd gwag, er bod angorfeydd gwag ym Mhlas Heli. Nodwyd bod Pwllheli yn harbwr agored heb hawl i droi cwch i ffwrdd.

Adroddodd un aelod o'r Pwyllgor am ei bryder nad oedd llefydd gwag, gan gyfeirio at incwm o £1.6 miliwn 2021 a tharged o £1.4 miliwn, oedd yn golygu bod arian dros ben. Nododd ei ddymuniad cryf i'r arian gael ei fuddsoddi mewn ehangu neu wneud gwelliannau, megis ansawdd tir neu hyd yn oed gwneud rhywbeth gwahanol. Erfyniodd ar aelodau y Pwyllgor i rannu y neges nad oes cynnydd wedi bod yn y ffioedd a nododd ei obaith fod y dyfodol yn ddisglair.

Roedd y Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned yn croesawu y cynnydd mewn niferoedd a nododd ei ddymuniad y byddai y cynlluniau buddsoddi ar gael maes o law. Nododd hefyd pan fo'r Hafan yn llwyddiannus ei fod yn dangos nid yn unig ei botensial ond yn cadarnhau ei fod yn ased economaidd pwysig. Serch hyn, nododd nad oedd yn siŵr a fyddai modd cadw'r elw i gyd ym Mhwllheli, ond rhoddodd sicrhad y byddai yn cyflwyno achosion i fuddsoddi. Nododd aelod arall o'r Pwyllgor fod yr adnodd hwn (Hafan) yn

allweddol bwysig a bod eisiau edrych ar ei ôl ac y dylai unrhyw gynllun hir dymor alluogi y Cyngor i wneud pethau eraill i wella a datblygu'r safle.

Cyflwynwyd Taenlen III o'r atodiadau i'r Pwyllgor oedd yn cyfeirio at faterion yn ymwneud a chwyddiant a sgil effeithiau chwyddiant. Nododd aelod o'r Pwyllgor ei anfodlonrwydd gyda derbyn y ffigyrau chwyddiant mor hwyr yn y dydd, a nodwyd mai sgil effaith hyn oedd nad oedd modd rhoi cyfle teg i'w hystyried. Ategodd y Cadeirydd y sylw hwn gan nodi pwysigrwydd derbyn y ffigyrau mewn da bryd, ac aeth ymlaen i holi tybed fyddai modd cynnal cyfarfod o'r Pwyllgor yn ystod yr Haf?

Cadarnhawyd gan y Rheolwr Morwrol y byddai galw cyfarfod yn yr Haf yn anodd gan y byddai angen cyfarfod yn yr haf ar gyfer Harbwr Pwllheli, hefyd yn gofyn, o ran cysondeb, am gyfarfod ar gyfer harbyrau Porthmadog, Aberdyfi ac Abermaw ac nad oedd hyn yn ymarferol. Atgoffwyd y Pwyllgor i beidio â chadw materion o bryder nes y cyfarfod nesaf ac atgoffwyd aelodau y bod modd cysylltu â'r Swyddogion unrhyw adeg, megis cyfeiriwyd at gyfarfod diweddar rhwng cynrychiolydd y Gymdeithas Deiliaid Angorfeydd Marina Pwllheli a'r Rheolwr Gwasanaethau Morwrol ble trafodwyd nifer faterion oedd yn achosi pryder i'r Gymdeithas. Nid oes angen disgwyl tan y Pwyllgor i drafod materion neu i gyflwyno materion sydd o bryder.

**Adroddodd Rheolwr Hafan ar yr Eitemau Gweithredol fel a Ganlyn :**

Cadarnhawyd bod holl gymhorthydd mordwyo ar ei safle priodol a bod yr holl lusernau a goleuadau mordwyol yn gweithio. Nid oedd rhybudd i morwyr mewn grym ym Mhwllheli.

**Cei Tanwydd**
Cadarnhawyd bod y pwmp tanwydd yn ddeg oed erbyn hyn, ac y bydd pwmp newydd yn cael ei osod yn ei le yn ystod Mai/Mehefin 2022. O'r 1/4/22 ymlaen bydd bob peiriant neu gerbyd sydd yn gweithredu ar y tir yn gorfod defnyddio disel gwyn. Mae disel coch yn parhau i gael ei werthu ar gyfer defnydd gan cwch ar hyn o bryd, ond nid oedd sicrwydd am ba hyd fyddai hyn yn parhau. Cwestiynwyd argaeledd petrol ar y pontŵn, a chadarnhawyd bod peipen i'r pwmp wedi ei wasgu a'i bod wedi bod yn anodd cael peiriannydd allan i roi sylw i'r mater, ond fod y digwyddiad wedi ei ddatrys erbyn hyn.

O ran y pryder am y ramp droed i lawr at y cei tanwydd, cadarnhawyd bod pris wedi ei dderbyn am ramp newydd, ac y bydd y gwaith o eu gosod yn cael ei wneud yn y flwyddyn ariannol nesaf.

**Storio ar y Lan**
Adroddodd Rheolwr Hafan bod 25 cwch wedi ei storio ar y tir ac wedi bod yno ers amser maith ac nad ydynt yn ymddangos fel eu bod am gael ei lansio i'r dŵr yn y dyfodol agos. Nodwyd mai yr unig ateb i leihau niferoedd yw cynyddu y ffi storio ar y tir, yn y gobaith o ryddhau y llefydd hyn i'r rhai hynny sydd â chytundeb angorfa blwyddyn.

Mewn ymateb i sylw am y prinder lle, cyfeiriwyd at y cynlluniau o ran Glan y Don, gan nodi bod mannau arbennig o'r math mor bwysig, a rhaid bod yn fyw i beidio â cholli y rhain.

O ran trefniadau maes parcio, cwestiynwyd a fyddai modd cael man caled i barcio neu a fyddai bosib rhannu maes parcio Plas Heli? Cadarnhaodd Rheolwr Hafan y bwriad i geisio gweithio o gwmpas beth sydd ar gael gan efallai edrych yn fwy manwl ar y compownd. Cadarnhawyd bod maes parcio Plas Heli ar gael, a bod trefniadau wedi ei gwneud i roi rhwystrau ar y mynedfeydd. Awgrymwyd efallai nad oedd y neges wedi treiddio bod y maes parcio ar gael i ddefnyddwyr yr Hafan, ac o bosib bod angen mwy o drafod ar y mater rhwng y Rheolwr Gwasanaethau Morwrol a Rheolwr Plas Heli.

**Ystadegau'r Harbwr**

Cadarnhawyd bod 410 o gytundebau cychod wedi ei dyrannu, gyda 63 ar y rhestr aros, a'i bod yn argyhoeddi i fod yn dymor llwyddiannus yn 2022. Atgoffodd y Rheolwr Gwasanaethau Morwrol am yr angen i gofrestru cychod a Badau Dŵr Personol, gan nodi bod hyn yn cynnwys y cychod heb angorfa flynyddol/angorfa pontŵn hefyd. Adroddodd bod nifer o achosion yn ystod 2021 ble roedd cychod o'r math heb gofrestru, er ei bod yn angenrheidiol gwneud hyn.

Cadarnhaodd bod trefniant cofrestru mewn lle ym mhob man arall, ac mae sgil effaith peidio â chofrestru byddai codi y ffi i gwmnïau parcio a lansio neu gosod rhwystr er gorfodi cwmnïau i gydymffurfio a materion diogelwch. Cytunwyd i wneud apêl drwy y Cynrychiolydd Cymdeithas Masnachwyr Morwrol Pwllheli am yr angen i gychod fod wedi eu cofrestru ar lein, ac yna dewis o ble maent yn lansio.

Adroddodd Cynrychiolydd Cymdeithas Masnachwyr Morwrol Pwllheli bod codiad o 5% ar ffi wasanaeth parcio a lansio yn dderbyniol, a bod pedwar cwmni sydd yn ymwneud a'r maes gyda eu henwau da yn y fantol os nad oes cydymffurfiaeth o ran cofrestru. Cadarnhaodd eu bod yn weithredol yn hysbysu eu cwsmeriaid, gan gynnwys yr angen iddynt gael eu sticeri, ac nid oeddynt yn teimlo bod mwy y gallent ei wneud. Cyfeiriwyd at y broblem o ran diffyg argaeledd sticeri a chwestiynodd a yw Harbyrau eraill yn cael eu gwylio mor agos â Harbwr Pwllheli? Yn ychwanegol, nododd hefyd yr angen i gadw llygaid ar fadau dwr sydd yn defnyddio llithrfeydd bychain cyfagos. Cyfeiriodd at yr angen am giât newydd i'r pontŵn gan fod y giât bresennol yn pydru.

Diolchwyd am y sylwadau a nodwyd y byddai Rheolwr Hafan yn edrych ar y materion a godwyd. Adroddodd Rheolwr Hafan, o ran y pryder am y badau dwr, bod dau Awdurdod wedi gwahardd badau dwr rhag lansio, ond nid yw Gwynedd wedi mynd lawr y lon hon hyd yma.

Diolchodd y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol am y gwaith gan gwmnïau y Gymdeithas Masnachwyr Morwrol, gan gadarnhau mai Rheoliadau yr Harbwr yw yr uchod, a nodi ei ddiolchiadau am yr holl ymdrechion wrth gadw at y Rheoliadau.

**Adolygiad yr Harbwr**
Hysbyswyd y Pwyllgor am benodiad Gerwyn Owen i swydd Rheolwr Masnachol Hafan a Harbwr Pwllheli a bydd yn ymgymryd â'r swydd ar y tir o 1/6/22. Cadarnhawyd y bydd Hafan/Harbwr yn Uned ar ei phen ei hun wedyn, ac y bydd newidiadau ar y gweill o ganlyniad. Cadarnhawyd na fydd y Rheolwr Gwasanaethau Morwrol yn arwain ar y Pwyllgor hwn o'r cyfarfod Hydref 2022 ymlaen.

Gobeithiwyd y bydd perthnasau yn cael eu gwella yn enwedig yn dilyn sylwadau y Cynrychiolydd Cymdeithas Masnachwyr Morwrol Pwllheli eu bod yn teimlo wedi eu dieithrio, gan honni na fu unrhyw gyfathrebu ynglŷn â'r problemau lansio.

Diolchodd Y Cadeirydd i'r Rheolwr Gwasanaeth Morwrol am ei holl waith a'i gefnogaeth yn y cyfarfodydd.

**PENDERFYNWYD** :

(1) Nodi a derbyn yr adroddiad.

**Unrhyw Fater Arall**
Adroddodd y Cynrychiolydd Clwb Hwylio Pwllheli y bydd rasus hwylio RYA Prydeinig yn cael ei gynnal yn yr ardal ddechrau Ebrill 2022, ac mae hon yn ddigwyddiad pwysig iawn, ble disgwylir dros 300 o gystadleuwyr. Nododd bod llawer o waith cynllunio er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn ddigwyddiad llwyddiannus, a bod croeso cynnes i bawb ddod draw.

Diolchwyd i bawb am eu cyfraniadau gwerthfawr.

## 6. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nodwyd y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 18 Hydref, 2022 am 6.00 pm

Dechreuodd y cyfarfod am 6.00 pm a daeth i ben am 7.45 pm.

**CADEIRYDD**